

*Safonau:
Ymgynghoriad
gan Gomisiynydd
y Gymraeg*

Ymateb
gan Dyfodol i'r Iaith

Llais i'r Iaith

Dyfodol i'r Iaith
Haf 2012
www.dyfodol.net

Safonau: Ymgynghoriad gan Gomisiynydd y Gymraeg

Ymateb gan Dyfodol i'r Iaith

© Dyfodol i'r Iaith, 2012

Cyhoeddwyd gan Dyfodol i'r Iaith ac argraffwyd gan Y Lolfa, Talybont.

www.dyfodol.net

Safonau: Ymgynghoriad gan Gomisiynydd y Gymraeg

Ymateb gan Dyfodol i'r Iaith

Cyflwyniad

Mae Dyfodol i'r Iaith yn grŵp pwysu annibynnol, amhleidiol sydd â'r nod o hyrwyddo buddiannau'r Gymraeg trwy ddulliau cyfansoddiadol ym mhob maes posib. Fe'i sefydlwyd yn gynharach eleni.

Croesawn y cyfle i gynnig sylwadau i Gomisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i'w galwad am adborth ar y Safonau drafft (yn enwedig o gofio nad oedd rheidrwydd arni i gynnal ymgynghoriad o'r fath). Yn gyffredinol, credwn fod y cynigion a geir yn y ddogfen ymgynghorol yn adlewyrchu ymgais i fod yn uchelgeisiol. Mae hyn yn destun calondid. Os yw'r Gymraeg i ddod yn nodwedd mwyfwy amlwg o fywyd cyhoeddus Cymru, bydd yn rhaid wrth barodrwydd i wthio'r ffiniau wrth i ystod o sefydliadau addasu eu harferion gwaith er mwyn sicrhau bod defnyddio'r iaith bob amser yn ddewis ystyrlon ac ymarferol. Eto i gyd, credwn fod rhai agweddau o'r ddogfen yn galw am sylw pellach ac fe eir ati i fanylu ar hyn yn yr adrannau isod.

Safonau: Y Model Arfaethedig

Yn Adran 3 o'r ddogfen ymgynghorol amlinellir y cynllun cyffredinol tair rhan a fydd yn sail i'r broses o roi'r amrywiol safonau ar waith. Credwn fod hwn yn gynllun priodol y bydd dinasyddion a sefydliadau yn medru ei ddehongli yn ddigon hwylus.

Yn ogystal, croesawn y datganiad yn Adran 3 mai egwyddorion absoliwt yw'r safonau. Fodd bynnag, tra bo'r safonau yn absoliwt, mae'r modd y bydd yn rhaid i gyrff eu gweithredu yn mynd i amrywio, yn unol ag egwyddor "rhesymol a chymesur". Serch hynny, mae gwneud datganiad o'r fath yn hanfodol, fe dybiwn, er mwyn creu'r math o hinsawdd a fydd yn cymell sefydliadau i drin eu hymrwymadau tuag at y Gymraeg mewn modd difrifol. Bydd yn fodd o ddanfôn neges glir: nad yw'n fan cychwyn derbyniol mwyach i drin yr ymrwymadau hyn fel pethau dymunol yn unig.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Cyffredinol

Croesawn y pwyslais a roddir yn achos y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar yr angen i gyrff *hybu a hwyluso'r* defnydd o'r Gymraeg. Golyga bod disgwyl i gyrff wneud mwy na dim ond trefnu eu gwasanaethau mewn modd sy'n sicrhau bod dewis Cymraeg ar gael; disgwylir hefyd iddynt fod yn rhagweithiol, gan dynnu sylw at fodolaeth y dewis, annog unigolion i fanteisio arno a sicrhau bod awyrgylch a diwylliant y corff yn un sy'n cymell defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn hollbwysig os ydym am weld mwy o siaradwyr Cymraeg yn mynd ati i wneud defnydd cyson o'r iaith mewn gwahanol beuoedd cyhoeddus, swyddogol.

Safonau

Mae Safon 2 yn sefydlu egwyddor hollbwysig, ond er mwyn ei gryfhau dylid ychwanegu'r cymal canlynol:

Golyga hyn bod yn rhaid i'r gwasanaeth Cymraeg gael ei gynnig fel opsiwn diofyn. Ni fydd trefniant lle datgenir neu y perir y bydd gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu yn unig lle bo'r defnyddiwr yn gwneud cais penodol amdano, boed ar lafar neu mewn unrhyw ffordd arall (er enghraifft, trwy orfod gwasgu botwm ychwanegol ar sgrin), yn cael ei ystyried yn dderbyniol.

Dylid ychwanegu safon newydd rhwng Safonau 2 a 3 sy'n meddu ar eiriad tebyg i'r canlynol:

Rhaid hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau.

Dylid diwygio Safon 3 fel a ganlyn:

Rhaid bod yn rhagweithiol wrth ei gwneud yn amlwg i ddefnyddwyr gwasanaethau bod croeso iddynt gyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, *mewn unrhyw fodd*, a rhoi gwybod iddynt ymlaen llaw y gallant wneud hynny.

Dylid ychwanegu dwy safon newydd rhwng Safonau 3 a 4 sy'n meddu ar eiriad tebyg i'r canlynol:

Os yw'r defnyddiwr, o glywed am argaeledd y gwasanaeth Cymraeg, yn nodi y dymuna gymryd mantais o'r gwasanaeth hwnnw, cyfrifoldeb y sefydliad fydd hwyluso hyn. Ni ddylid disgwyl i'r defnyddiwr wneud unrhyw beth ychwanegol er mwyn cyrraedd y gwasanaeth Cymraeg.

Yn achos gwasanaethau a ddarperir wyneb yn wyneb, rhaid i'r sefydliad wneud pob ymdrech bosib i sicrhau nad yw dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn golygu cyfnod

aros hwy nag a geir yn achos y gwasanaeth cyfrwng Saesneg. Yn yr achosion hynny lle nad oes modd osgoi oedi, dylai gweithdrefnau'r sefydliad nodi'n glir beth yw'r amser hwyaf yr ystyrir ei fod yn dderbyniol.

Gweithgareddau Perthnasol

Nid yw'n glir beth yn union a gaiff ei gwmpasu gan gategori (iv), Cyfarfodydd Personol. Er budd y defnyddiwr, dylid ychwanegu cymal pellach i egluro fel y gwneir yn achos categorïau (xix) ac (xxii).

Nid yw'n glir beth yn union a gaiff ei gwmpasu gan gategori (xiii), Cyflunio Gwasanaethau. Er budd y defnyddiwr, dylid ychwanegu cymal pellach i egluro fel y gwneir yn achos categorïau (xix) ac (xxii).

Er budd y defnyddiwr dylid diwygio geiriad categori (xxiv) Gweithgareddau Ieuentid fel ei fod yn cynnwys rhestr enghreifftiol:

Gweithgareddau Ieuentid gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) clybiau ieuentid, clybiau a gwersi chwaraeon, gweithgareddau celfyddydol a cherddorol.

Dylid ychwanegu'r gweithgareddau canlynol at y rhestr:

- Ymwneud â'r cyhoedd trwy beiriannau (er enghraifft peiriannau talu, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) y peiriannau talu â charden a ddefnyddir gan y sefydliad neu'r peiriannau talu a geir mewn meysydd parcio sydd dan ofal y sefydliad a hefyd unrhyw beiriannau sy'n cyfathrebu trwy gyfrwng llais).
- Derbynebaw, gan gynnwys derbynebaw a gaiff eu hargraffu gan unrhyw beiriant talu a ddefnyddir gan y sefydliad.

Ymhellach, yn achos y cyrff preifat sydd yn syrthio dan gwmpawd y mesur, dylid ychwanegu'r canlynol at y rhestr o Weithgareddau Perthnasol:

- Deunydd marchnata tymor hir a thymor byr.
- Logos a sloganau.
- Peiriannau codi arian.
- Cardiau teyrngarwch, gan gynnwys y wybodaeth a ddarperir yn eu cylch a hefyd unrhyw ohebiaeth berthnasol megis datganiadau ariannol.
- Tocynnau gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) tocynnau teithio a thocynnau mynediad.
- Hysbysebion gan drydydd parti a gaiff eu harddangos ar dir neu eiddo'r sefydliad/cwmni.

Strategaeth Cydymffurfio

Cymal 2: Wrth werthuso'r gweithdrefnau y bwriada gwahanol gyrff eu mabwysiadu, credwn y dylai'r Comisiynydd anelu at sicrhau y ceir lefel uchel o gysondeb rhyngddynt. Mae'n anochel y bydd yn rhaid wrth ychydig o amrywiaeth o bryd i'w gilydd, yn sgil natur cyfrifoldebau gwahanol gyrff a hefyd yn sgil natur ieithyddol gwahanol ardaloedd. Fodd bynnag, bydd ceisio sicrhau lefel mor uchel â phosib o gysondeb yn fuddiol. I ddechrau, bydd yn fodd o hybu ymlediad arfer da. Ar ben hynny, bydd cysondeb da o ran gweithdrefnau ieithyddol yn fuddiol o safbwynt parodrwydd y dinesydd unigol i wneud defnydd o'r Gymraeg wrth symud o gorff i gorff, gan y bydd yn gyfarwydd ag union oblygiadau cymryd cam o'r fath.

Dylid diwygio isadran (iv) o gymal 3 fel a ganlyn:

unrhyw gwynion gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cyfeirio at anawsterau wrth ddefnyddio'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg dros y cyfnod adrodd diwethaf *ac amlinellid o'r camau a gymerwyd yn sgil derbyn y cwynion hyn.*

Dylid diwygio isadran (iv) o gymal 4 fel a ganlyn:

unrhyw gwynion gan staff yn cyfeirio at anawsterau wrth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau dros y cyfnod adrodd diwethaf *ynghyd ag amlinellid o'r camau a gymerwyd yn sgil derbyn y cwynion hyn.*

Safonau Llunio Polisi

Cyffredinol

Eglurir bod safonau llunio polisi yn safonau sy'n gosod dyletswydd ar y sawl sy'n gyfrifol am benderfyniad polisi i ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai'r penderfyniad hwnnw yn eu cael:

- ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymhellach, eglurir bod y safonau yn gosod dyletswyddau pellach: bod y sawl sy'n gyfrifol am benderfyniad polisi yn rhoi ystyriaeth i'r graddau y gellid cymryd y penderfyniad mewn modd a fyddai naill ai'n hybu ei effeithiau positif ymhellach, neu, ar y llaw arall, yn lliniaru ar ei effeithiau andwyol.

Yn achos y safonau hyn, credwn ei bod yn hollbwysig bod y Comisiynydd yn mabwysiadu dehongliad eang o'r cymal canlynol: 'cyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg'. Yn benodol, dylai ddehongli'r cymal mewn modd sy'n cwmpasu mwy na dim ond effaith gwahanol benderfyniadau polisi ar gyfleoedd dinasyddion i ddefnyddio'r Gymraeg *mewn perthynas â'r sefydliad(au) sy'n gyfrifol*

am eu cymryd. Yn hytrach, dylai'r cymal gael ei ddehongli mewn modd sy'n cwmpasu effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws cymdeithas, boed mewn peuoedd ffurfiol neu anffurfiol.

Dylai bod disgwyl i sefydliadau roi ystyriaeth nid yn unig i'r modd y bydd eu penderfyniadau yn dyrchafu statws cyhoeddus y Gymraeg, ynghyd â'r graddau yr hwylusir y defnydd ohoni mewn peuoedd cyhoeddus, ond hefyd i'w sgil effeithiau demograffig, ac yn sgil hynny, eu hoblygiadau i batrymau iaith y gymdeithas yn gyffredinol. Er enghraifft, mewn maes megis cynllunio dylid disgwyl i swyddogion sicrhau bod eu hystyriaeth o effeithiau gwahanol benderfyniadau ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn cwmpasu mwy na dim ond ymgais i bwyso a mesur y graddau y gall dinasyddion ymwneud â'r broses gynllunio trwy gyfrwng yr iaith (e.e. y graddau y gellir gwneud cais am ganiatâd cynllunio neu apelio polisiâu cynllunio trwy gyfrwng y Gymraeg).

Pwynt pellach, y dylai'r comisiynydd roi sylw iddo yw'r ffaith y bydd gweithredu'r Safonau Llundio Polisi mewn modd ystyrlon yn galw am ddatblygu methodolegau safonol, cenedlaethol y bydd swyddogion cyhoeddus yn medru eu cymhwyso wrth wneud penderfyniadau. Heb sefydlu methodolegau o'r fath mae peryg y bydd y broses o bwyso a mesur effeithiau penderfyniadau polisi ar ragolygon y Gymraeg yn dibynnu'n ormodol ar fympwy adran neu swyddog penodol. Credwn y dylai'r Comisiynydd fynd ati ar fyrder i arwain y gwaith o ddatblygu'r methodolegau hyn ac y dylai wedyn osod disgwyliad ar gyrrff i sicrhau bod y defnydd ohonynt yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'w strategaethau cydymffurfio a'u gweithdrefnau mewnol. I'r perwyl hwnnw, awgrymir diwygiad i eiriad is-adran (i) o gymal 2 yn yr adran Strategaeth Cydymffurfio (gweler isod). Ymhellach, bydd y broses o ddatblygu a mireinio'r methodolegau angenrheidiol yn un y bydd Dyfodol i'r iaith yn chwilio am gyfleoedd i'w hybu dros y misoedd nesaf.

Yn olaf, nodwn fod gweithredu amryw o'r Safonau Llundio Polisi yn galw ar gorff i naill ai feddu ar arbenigedd ym maes cynllunio ieithyddol o fewn ei weithlu neu i fedru tynnu ar arbenigedd o'r fath o gyfeiriad ymgynghorwyr allanol. O ystyried hyn, bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r cwestiwn dyrys o beth yn union sy'n arwain at arbenigedd yn y maes hwn ac felly sy'n caniatáu i unigolyn neu gorff honni bod ei gyngor yn meddu ar hygrededd. Yn wahanol i feysydd megis y gyfraith neu feddygaeth, nid yw cynllunio ieithyddol (yng Nghymru o leiaf) yn meddu ar gyfundrefn hyfforddi swyddogol sy'n arwain yn y pen draw at gymhwyster cydnabyddedig. Wrth gwrs, mae'n ddigon posib na fyddai sefydlu un drefn ffurfiol o'r fath mewn perthynas â chynllunio ieithyddol yn ddymunol, o ystyried y modd y

mae'r maes yn un sy'n cwmpasu ystod o ystyriaethau gwahanol, boed yn rhai gwleidyddol, cymdeithasegol, economaidd neu ddemograffig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau safon, rhesymol yw disgwyl i rai sgiliau gael eu trin fel rhai hanfodol. Er enghraifft, onid yw'n briodol disgwyl bod unrhyw un sy'n hawlio arbenigedd ym maes cynllunio ieithyddol ac sy'n ceisio cyflogaeth ar sail yr arbenigedd hwnnw, yn meddu ar ryw fath o gymwysterau mewn perthynas â'r defnydd o ddulliau ymchwil cymdeithasol (rhai meintiol ac ansoddol).

O ystyried y modd y mae rhai o gymalau Mesur y Gymraeg (2011), ac yn enwedig y Safonau Llundio Polisi, yn debygol o gynyddu bri cynllunio ieithyddol fel disgyblaeth ac fel proffesiwn, mae galw am drafodaeth ynglŷn â sut orau i reoleiddio'r maes. Cred Dyfodol i'r Iaith y dylai'r Comisiynydd arwain trafodaeth o'r fath.

Safonau

Dylid ychwanegu dwy safon newydd rhwng Safonau 3 a 4 sy'n meddu ar eiriad tebyg i'r canlynol:

Rhaid i ystyriaeth o effeithiau posib penderfyniadau polisi ar gyfleoedd personau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gael ei harwain gan unigolyn neu gorff nad oes ganddo fudd amlwg yng nghanlyniad y broses.

Wrth ymgymryd â'r gwaith gwerthuso angenrheidiol dylid dibynnu ar staff neu ymgynghorwyr sydd yn meddu ar arbenigedd penodol ym maes cynllunio ieithyddol.

Y prif gymhelliad dros alw am ychwanegu'r safonau newydd hyn yw'r duedd a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf i awdurdodau cynllunio ymddiried y gwaith o gynnal asesiadau o effaith posib datblygiadau penodol i'r cwmnïau a fyddai, pe rhoddwyd caniatâd cynllunio, yn gyfrifol am gyflwyno'r datblygiadau hynny. Mae angen gochel rhag arfer o'r fath os yw'r broses werthuso ac unrhyw gasgliadau a ddeillia ohoni yn mynd i feddu ar hygyrdd.

Dylid diwygio safon 6 fel a ganlyn fel nad yw'r geiriad wedi'i gyfyngu i drafod y defnydd o wasanaethau yn unig:

Wrth ymgynghori yn ystod y cyfnod o ddatblygu polisi, dylid sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy yn cynnwys *trawsdoriad o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys unigolion sy'n gynrychioladol o ddefnyddwyr unrhyw wasanaeth neu wasanaethau perthnasol*. Os yw ymgynghori yn gyfyngedig i sefydliadau dethol, dylid sicrhau bod sefydliadau cynllunio ieithyddol priodol yn rhan o'r broses.

Dylid diwygio is-adran (ii) o Safon 9 fel a ganlyn:

... annog eraill, *boed yn gyrff cyhoeddus neu breifat neu'n unigolion*, i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud a'r sefydliad

Strategaeth Cydymffurfio

Dylid diwygio is-adran (i) o gymal 2 fel a ganlyn:

... trefn ar gyfer rhoi cyngor ac arweiniad i staff priodol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau parthed prif ffrydio'r Gymraeg o fewn penderfyniadau polisi *a hefyd yn ymwybodol o natur unrhyw fethodolegau cenedlaethol y dylid eu mabwysiadu er mwyn mesur effaith posib y penderfyniadau hyn* a dylid eu hanfon at y Comisiynydd o fewn yr amserlen.

Safonau Gweithredu

Cyffredinol

Croesawn yn fawr y datganiad ar dudalen 20 sy'n nodi y 'bydd disgwyl i'r mwyafrif o sefydliadau gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol'. Un o wendidau mawr cyfundrefn y cynlluniau iaith oedd y ffaith na chafodd y defnydd mewnol o'r Gymraeg lawer o sylw.

Safonau

Dylid ychwanegu cyfres o safonau newydd rhwng Safonau 2 a 3 sy'n meddu ar eiriad tebyg i'r canlynol:

Wrth roi'r hysbysiad i A rhaid nodi'r gwahanol sgiliau iaith a ddefnyddir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau – siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu. Os yw hyfedredd A yn y Gymraeg yn gryf mewn perthynas â rhai o'r sgiliau hyn yn unig dylid caniatáu iddo gyflawni'r gweithgareddau a fydd yn berthnasol i'r sgiliau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Os yw A, o dderbyn yr hysbysiad, yn nodi nad yw am ddefnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â'i weithgareddau dylid pwysleisio bod croeso iddo newid ei benderfyniad yn y dyfodol.

Os yw A, o dderbyn yr hysbysiad, yn nodi y byddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn perthynas ag elfennau penodol o'i weithgareddau yn unig (er enghraifft gweithgareddau llafar), dylid pwysleisio bod croeso iddo ehangu ar ei ddefnydd o'r iaith yn y dyfodol (er enghraifft ychwanegu gweithgareddau llafar).

Lle bo A yn nodi bod ganddo ddymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â'i weithgareddau ond nad yw'n teimlo ei fod yn meddu ar hyfedredd digonol i wneud hynny, dylid rhoi'r cyfle iddo fynychu cwrs gloywi iaith perthnasol, a hynny yn ystod ei oriau gwaith.

Gweithgareddau Perthnasol

Dylid diwygio geiriad categori (xi) fel a ganlyn:

Cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg A *gan nodi lefel ei hyfedredd mewn perthynas â phob un o'r sgiliau iaith allweddol: siarad, darllen, gwrando, ac ysgrifennu.*

Dylid diwygio geiriad categori (xiv) fel a ganlyn:

Cynnig cyfleoedd i A feithrin ei sgiliau iaith Gymraeg: *ei sgiliau siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu.*

Safonau Hybu

Cyffredinol

Roedd hi'n bwysig dros ben fod y rhaglen o safonau a gafodd ei sefydlu gan Fesur y Gymraeg (2011) yn cynnwys Safonau Hybu. Golyga bod dyletswydd gyfreithiol yn medru cael ei gosod ar rai cyrff i wneud mwy na dim ond sicrhau bod modd i unigolion ymwneud â hwy trwy gyfrwng y Gymraeg; rhaid iddynt hefyd fynd ati'n fwriadus i annog arfer o'r fath, ynghyd ag achub ar gyfleoedd i hybu twf yn y defnydd o'r iaith ar draws cymdeithas yn gyffredinol.

Fodd bynnag, credwn nad yw'r Mesur, yn ei ffurf bresennol, yn caniatáu i safonau hybu gael eu cymhwyso i ystod digon eang o gyrff. Er enghraifft, o ystyried bod addysg a sgiliau yn cael eu nodi fel meysydd allweddol yn yr adran Gweithgareddau Perthnasol, byddai'n briodol i'r safonau hybu gael eu cymhwyso i ystod ehangach o ddarparwyr addysg na dim ond awdurdodau lleol. O ystyried eu cyfraniad allweddol i'r broses o hyfforddi'r gweithlu ar gyfer gwahanol gyrff cyhoeddus, byddai'n briodol pe bai'r safonau hybu yn cael eu cymhwyso mewn perthynas â chyrff megis prifysgolion a cholegau addysg bellach hefyd. Yn ogystal, yn achos prifysgolion byddai gosod dyletswydd arnynt i gydymffurfio â'r Safonau Hybu yn briodol o ystyried eu cyfrifoldebau ymchwil a hefyd eu presenoldeb economaidd a chymdeithasol.

Nodwn a derbyniwn ddatganiad y Comisiynydd i'r perwyl nad yw'n dymuno 'ail agor trafodaeth ynghylch cwmplas y Mesur ei hun yn ystod yr ymgynghoriad hwn'. Fodd bynnag, bydd ystod y cyrff y disgwylir iddynt gydymffurfio â'r Safonau Hybu yn fater y bydd Dyfodol i'r iaith yn ei godi maes o law â Llywodraeth Cymru.

Safonau

Dylid diwygio safon 3 fel a ganlyn:

Dylid cymryd pob cam rhesymol a phriodol i hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol, a allai gynnwys:

- i. cydweithio â mudiadau cymunedol a gwirfoddol *gan gynnwys eu cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â'u gweithgareddau*;
- ii. annog cwmnïau, *cyrff trydydd sector ac unigolion* i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r sefydliad;
- iii. gweithio â grwpiau targed penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, *boed mewn peuoedd ffurfiol neu anffurfiol*;
- iv. creu cysylltiad â mudiadau sydd â diddordeb yn y Gymraeg i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol;
- v. edrych am gyfleoedd i *hybu a hwyluso'r* defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;
- vi. codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Gymraeg ymhlith y sawl nad ydynt yn ei siarad, ynghyd â chynyddu'r cyfleoedd a geir i'w dysgu;
- vii. *sicrhau nad yw penderfyniadau polisi yn cael effaith niweidiol ar ragolygon y Gymraeg (yn unol â gofynion y Safonau Llunio Polisi).*

Gweithdrefnau

Nid yw'n glir beth yn union a gaiff ei gwmpasu gan gategori (v), seilwaith ar gyfer y Gymraeg. Dylid felly ychwanegu cymal pellach i egluro ystyr y categori yn well.

100
DYFO Llais i'r laith